Bwydlen Nos
Y Mochyn Du

Ein pwyslais yw Bwyd Cartref gyda naws Gymreig

Gweler y Bwrdd Du ar gyfer prydau arbennig y dydd

I Ddechrau

Cawl Cartref Traddodiadol £4.75
Pryd o gig oen a llysiau wedi ei weini â bara grawn cyflawn a talp o gaws cheddar Cymreig.

Cawl y Dydd £3.95
Cawl cartref. Gweler y Bwrdd Du ar gyfer pryd heddiw.

Bruschetta £4.50
Ciabatta garlleg wedi'i dostio ar ei ben tomatos mân a basil melys.

Adenydd Cyw Iâr â Sglein Penderyn £4.75
Adenydd Cyw Iâr yn ein sglein chwisgi Penderyn cartref.

Silod Mân £4.50
Bwyd tafarn clasurol, silod mân wedi'u ffrio a'u gweini â lemwn a aioli garlleg.

Rarebit Y Mochyn Du £4.95
Tafell drwchus o fara grawn cyflawn ac arno ein 'Rarebit' Cymreig ein hunain wedi ei wneud o facwn wedi fygu, winwns coch, cwrw Cymreig a Cheddar Collier's Aeddfed.

Antipasti – Platiaid i'w Rannu £9.95
Dewis o gigoedd sych o'r Eidal gyda ffrwyth yr olewydd, mozzarella, llysiau rhost a tomatos. Gweinir gyda bara ciabatta a dipiau o finegr balsamig ac olew olewydd.

Nachos Cartref – Platiaid i'w Rannu £8.95
Platiad mawr o nachos cartref a'u gweini â Collier's Cheddar wedi toddi a picho de gallo cartref. **Dewis** o'n **"Welsh Rarebit"** enwog ***neu*** ein **Brisged Tsili wedi'i dynnu** i'w dipio.

Sglodion Cartref a Thatws Stwnsh
Mae'r rhain i gyd wedi eu gwneud yn ein cegin gan ddefnyddio'r tatws Maris Piper gorau.

Saladau Tymhorol

Mae saladau ein cogydd wedi eu paratoi'n ddyddiol er mwyn cynnwys cynnyrch gorau a mwya ffres y dydd â dresin cartref o'ch dewis. Dewiswch o balsamig, mwstard mêl, neu dresin Ffrengig.

Gweler y Bwrdd Du i weld ein dewis o salad ffres y dydd

Cinio Dydd Sul

Ar y Sul cig eidion Cymreig a cig iâr buarth sydd ar gael, hefyd cig oen Cymreig yn dymhorol. Mae ein cinio Sul traddodiadol yn cynnwys pwdin Sir Efrog, llysiau ffres a thato rhost.

Gweinir bwyd trwy'r dydd, bob dydd

12.00 tan 9.00 pm Llun–Iau,
12.00 tan 9.30 pm Gwener Sadwrn,
12.00 tan 8.00 pm Sul

Prif Gyrsiau

Pysgod a Sglodion Traddodiadol £9.95
Un o'n prydau enwog – ffiled helaeth o benfras wedi ei goginio yng nghytew cwrw ysgafn Y Mochyn Du. Wedi ei weini â phys stwnsh a saws tartar cartref.

Linguine Eog wedi'i Fygu £9.95
Eog wedi'i fygu a pasta linguine mewn saws dil hufennog a mascarpone.

Ffiled o Gegddu a Saws Parsli £11.95
Ffiled o gegddu wedi'i ffrio gyda llysiau tymhorol, tatws dauphinoise a saws parsli.

Bola Mochyn Cymreig wedi'i Goginio yn Araf £9.95
Wedi ei weini â stwnsh grawn cyflawn mwstard, ffa gwyrdd a saws afal a seidr Cymreig.

Lasagne Cartref Rhost Saets 'Butternut Squash' a Madarch Gwyllt £8.95
Gweinir â salad a bara garlleg.

Salad "Welsh Rarebit" Y Mochyn Du £7.95
Bara ciabatta galeaga ar ei ben ein "Welsh Rarebit" cartref yn cynnwys bacwn wedi'i fygu, winwns coch, cwrw Cymreig, a Cheddar Collier's aeddfed gyda ŵy wedi'i botsio ar ei ben a'i weini â'n salad tymhorol.

Pei Cwrw a Stêc Cartref £9.50
Cig eidion gorau Cymreig ar ei ben crwst pwff a sglodion cartref.

Selsig a Stwnsh Y Mochyn Du £8.50
Un arall o'n prydau enwog – selsig porc arbenigol Driscoll's wedi ei weini â thatws stwnsh a grefi winwns cartref. Pryd i dynnu dŵr o ddannedd mochyn!

Ffagots Cymreig a Phys Stwnsh £7.95
Pryd traddodiadol wedi ei weini â grefi winwns a chennin a thatws stwnsh Y Mochyn Du.

Ham Mêl Cartref £8.95
Sleisys swmpus o ham a phâr o wyau buarth ar eu pen a'u gweini â'n sglodion cartref.

Tsili Brisged Cymreig Cartref wedi'i Dynnu £9.50
Tsili sbeislyd wedi ei wneud o frisged Cymreig a'i goginio yn araf. Gweinir â reis, hufen sur, guacamole a nachos.

Brest Cyw Iâr BBQ wedi'i Grilio £9.95
Brest cyw iâr blasus wedi'i farinadu a'i weini gyda sglodion cartref. Wedi ei weini â saws barbeciw, caws Monterey Jack a bacwn.

Y Mochyn Du

www.ymochyndu.com

Clôs Sophia, ger Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9HW

Ffôn: 029 2037 1599

Mae'r prisiau yn cynnwys TAW.
Brasamcan yw pwysau'r cig cyn ei goginio.
26.04.17

Stêcs Cymreig Y Mochyn Du

Mae pôb un o'n stêcs o gig eidion wedi ei aeddfedu am 21 diwrnod er mwyn diogeli'r blas unigryw naturiol Cymreig. Wedi'i blasuso a'i gweini gyda sglodion cartref a tomatos ceirios rhost.

8 oz. Rump £10.95
10 oz. Rump £12.95

Byrgers Cymreig Cartref ein hunain

Byrger Rarebit Y Mochyn Du £9.95
Wedi ei gorchuddio a'n Rarebit Cymreig ein hunain. Gweinir mewn bynen brioche gyda cylchau winwns, gherkins, salad tomato, sglodion cartref a siytni tomato Cymreig.

Byrger Noeth £8.50
Byrger cartref, bynen brioche a colesaw a sglodion cartref.

Byrger Cyw Iâr wedi Duo £8.95
Brest cyw iâr moethus gyda pesto, mozzarella, coleslaw a sglodion cartref.

Byrger Halloumi £8.95
Byrger caws Halloumi gyda saws llugaeron, roced, coleslaw a sglodion cartref.

Pwdin Cartref

Crymbl y Dydd £4.50
Wedi ei weini â chwstard, hufen neu hufen iâ.

Pwdin Taffi Sticlyd Cartref £4.95
Wedi ei weini â hufen iâ mêl Aberhonddu.

'Brownie' Cartref Siocled a Ceirios Du £4.95
Wedi ei weini â hufen iâ mêl Aberhonddu.

Cacen Gaws Banoffee £4.95
Gwaelod bisgedi menynaidd ar ei ben saws cacen gaws banana a taffi gyda purée mefus a hufen.

Hufen iâ Cymreig Traddodiadol Mario's £3.95
Dewiswch flas fanila, siocled, mêl Aberhonddu neu mintys gyda darnau o siocled.

Yn Ychwanegol

Cylchau Winwns	£2.50
Salad Cymysg ein Cogydd	£2.50
Bara Garlleg	£2.50
Saws Pupur	£1.50
Sglodion Cartref	£2.50
Sglodion Tatws Melys	£2.95

Parti Preifat?

Gallwn gynnig ardal yn nhŷ bwyta ein gardd ar gyfer partïon preifat. Mae bwydlenni amrywiol ar gael gan gynnwys opsiwn bwffe a barbeciw yn yr ardd. Gofynnwch i'n staff am fanylion.